**DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990**

**GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (PRIFFORDD DDIENW, YSTAD DDIWYDIANNOL WERN, CASNEWYDD) 2017**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("y Ddeddf") i awdurdodi cau'r darn o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn er mwyn gwneud y datblygiad a ddisgrifir yn Atodlen 2. Bydd Gorchymyn Cau Priffyrdd (Priffordd Ddienw, Ystad Ddiwydiannol Wern, Casnewydd) 2017 ("y Gorchymyn"), yn peidio â chael effaith os daw'r caniatâd cynllunio mewn cysylltiad â'r datblygiad i ben neu os caiff ei ddirymu.

Gellir edrych ar gopïau o'r Gorchymyn a'r plan a adneuwyd yn rhad ac am ddim yn Swyddfeydd Cyngor Dinas Casnewydd, Gwasanaethau Strydlun a'r Ddinas, Godfrey Road, Casnewydd NP20 4UR yn ystod oriau swyddfa arferol neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1294611.

Caiff unrhyw berson a dramgwyddir gan y Gorchymyn, ar y sail:

a. nad yw o fewn pwerau'r Ddeddf; neu

b. na chydymffurfiwyd ag un o ofynion gweithdrefnol y Ddeddf;

o fewn 6 wythnos i 24 Gorffennaf 2017, wneud cais i'r Uchel Lys at y diben hwnnw.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar www.llyw.cymru (Detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau Anstatudol/ Trafnidiaeth/ Deddf Cynllunio Gwlad a Thref: Gorchmynion Cau/ 2017).

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**M D BURNELL**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**TOWN AND COUNTRY PLANNING ACT 1990**

**THE STOPPING UP OF HIGHWAYS (UNNAMED HIGHWAY, WERN INDUSTRIAL ESTATE, NEWPORT) ORDER 2017**

The Welsh Ministers have made an Order under section 247 of the Town and Country Planning Act 1990 ("the Act") to authorise the stopping up of the length of highway described in Schedule 1 to this Notice to enable the development described in Schedule 2 to be carried out. The Stopping Up of Highways (Unnamed Highway, Wern Industrial Estate, Newport) Order 2017 ("the Order"), will cease to have effect if planning permission in respect of the development expires or is revoked.

Copies of the Order and the deposited plan may be inspected free of charge at the offices of Newport City Council, Streetscene and City Services, Godfrey Road, Newport NP20 4UR during normal office hours or may be obtained free of charge from the address below quoting reference qA1294611.

If a person is aggrieved by the Order, on the ground that:

a. it is not within the powers of the Act; or

b. a procedural requirement of the Act has not been complied with;

that person may, within 6 weeks of 24 July 2017 make an application for the purpose to the High Court.

A copy of the Order and Notice can be viewed at www.gov.wales (Select: Legislation/ Subordinate legislation/ Non-Statutory Instruments/ Transport / TCPA Stopping Up Orders/ 2017).

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**M D BURNELL**
Transport
Welsh Government

## YR ATODLENNI

### ATODLEN 1
**(Bras amcan yw pob mesuriad)**

**Disgrifiad o’r darn o briffordd sydd i’w gau o dan y Gorchymyn hwn**

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd ddienw, Ystad Ddiwydiannol Wern, Casnewydd, De Cymru, NP10 9FQ sy’n mesur 90 o fetrau sgwâr fel a ddangosir ar y plan a adneuwyd.

### ATODLEN 2

**Y Datblygiad**

Estyniad tu blaen a gwaith allanol arfaethedig a newid defnydd rhan o’r adeilad i greu bar sy’n gysylltiedig â defnydd y bragdy, yn unol â chaniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran 3 o Ddeddf 1990 gan y Cyngor ar 06 Hydref 2016 o dan y cyfeirnod 16/0741.

## SCHEDULES

### SCHEDULE 1
**(All measurements are approximate)**

**Description of the length of highway to be stopped up under this Order**

An irregular shaped length of unnamed highway, Wern Industrial Estate, Newport, South Wales, NP10 9FQ measuring 90 square metres as shown on the deposited plan.

### SCHEDULE 2

**The Development**

Proposed front extension and external works and to change the use of part of the building to create a bar associated with brewery use, in accordance with planning permission granted under Part 3 of the 1990 Act by the Council on 06 October 2016 under reference number 16/0741.